**PENDERFYNIAD Y PANEL**

(Y Cyn) PC Gillian Davies

---

1. Mae'r penderfyniad hwn ynghylch gwrandawiad disgyblu y cyn Gwnstabl Heddlu Gillian Davies a gynhaliwyd ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Bae Colwyn ar ddydd Mawrth 4 Awst 2026.

2. Roedd y Panel yn cynnwys y llywydd sef y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Chris Allsop, hefo cymorth gan aelodau o'r panel sef Mr Andrew Parry a Mr Darren Campbell.

3. Cafodd y Panel gymorth Ymgynghorydd Cymwys yn y Gyfraith sef Mr Andrew Findlay.

4. Ni wnaeth y cyn Gwnstabl Heddlu Davies, na'i chynrychiolydd o'r Ffederasiwn ddod i'r gwrandawiad. Roedd Gillian Davies eisoes wedi ymddiswyddo o'i swydd yn Heddlu Gogledd Cymru a chyfeirir ati fel y cyn swyddog. Roedd ei diwrnod o wasanaeth olaf ar 2 Awst 2026. Rydym wedi cael gwybod fod y cyn swyddog wedi cael digon o rybudd am y gwrandawiad a'r honiadau yn ei herbyn, a'i bod wedi gwrthod dod i'r gwrandawiad. Nid oes arwydd y byddai gohirio wedi sicrhau presenoldeb y cyn swyddog. Mae'r cyn swyddog wedi ymateb i'r achos a gyflwynir yn yr ymateb Rheoliad 31. Felly, mae gennym ddirnadaeth o'r achos a fyddai'n cael ei symud ymlaen pe bai hi'n bresennol. Gan ystyried y rhain, rydym yn cael ei gwahodd gan yr Awdurdod Priodol i barhau yn absenoldeb yn cyn swyddog, ac mae'r panel yn fodlon mai iawn oedd gwneud hyn.

5. Mae'r panel wedi ymdrin hefo'u proses o wneud penderfyniad drwy gadw diben a natur achos disgyblu mewn cof. O ganlyniad, maent wedi ystyried canllawiau a pholisïau cenedlaethol a lleol.

## Y gyfraith sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ar ffeithiau

6. Mae’n rhaid i’r safon y mae’n rhaid i’r Awdurdod Priodol fodloni’r panel fod yn ôl pwysau tebygolrwydd. Mae tebygolrwydd neu annhebygolrwydd cynhenid digwyddiad yn parhau i fod yn ffactor perthnasol i'w ystyried wrth bwyso a mesur y tebygolrwydd ac wrth benderfynu a fu digwyddiad, yn ôl yr hyn sy’n debygol. O fewn y cyd-destun hwn, nid oes lle i’r panel ddod i’r casgliad y *gallai* rhywbeth fod wedi digwydd. Gallai’r Panel benderfynu naill ai ei fod wedi digwydd, neu ddim: **Parth B [2008] UKHL 35.**

7. Rhaid i ganfyddiadau ffeithiol fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac nid ar ddamcaniaeth. Rhaid i’r penderfyniad ynghylch a ydy’r ffeithiau o dan sylw wedi cael eu profi i’r safon angenrheidiol fod yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael.

8. Wrth benderfynu a ydy’r Awdurdod Priodol wedi cyflawni’r baich prawf sydd arno, mae’r panel yn ystyried yr hyn a ddisgrifiwyd fel ‘darlun eang’ y dystiolaeth sydd ger ei fron. Rôl y panel ydy ystyried y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd a gwneud casgliadau yn ôl yr un sy’n debygol yn unol â hynny. O fewn y cyd-destun hwn, rhaid i’r panel ystyried bob darn o dystiolaeth yng nghyd-destun yr holl dystiolaeth arall: **Parth T [2004] 2 FLR 838.**

9. Mae angen i’r panel ystyried eu diben o fewn y drefn gamymddwyn, sef:

   *9.1. cynnal hyder y cyhoedd ac enw da’r gwasanaeth heddlu; a*
   *9.2. cynnal safonau uchel mewn plismona ac atal camymddwyn; a*
   *9.3. gwarchod y cyhoedd.*

10. Derbyniodd y panel yr holl dystiolaeth yn yr achos. Roedd hyn yn cynnwys bwndel cychwynnol o dystiolaeth a oedd yn 382 tudalen a thystiolaeth cymeriad atodol a oedd yn 26 tudalen.

11. Nid oedd angen tystiolaeth gan dystion ar lafar, ac nid oedd angen i dystion ddod i’r gwrandawiad.

## Enw Da/Natur Dda

12. Nid oedd canfyddiadau blaenorol yn erbyn y cyn swyddog.

13. Darparwyd ugain o eirdaon.

14. Cofnodir dwy gymeradwyaeth ar y Cofnod Gwasanaeth.

## Rôl y panel

15. Mae gan rôl y Panel bedwar cam, fel arfer mewn dwy ran:

    15.1. *Rhan 1*

        *15.1.1. yn gyntaf, penderfynu'r ffeithiau, yn seiliedig ar hyn a gyfaddefir gan y (cyn) swyddog neu a brofir yn ôl yr hyn sy'n debygol;*

        *15.1.2. yn ail, penderfynu a ydy'r (cyn) swyddog wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol honedig yn seiliedig ar y ffeithiau hynny;*

        *15.1.3. yn drydydd, penderfynu a ydy'r toriadau a ganfuwyd yn cyfateb i gamymddwyn difrifol neu ddim;*

    *15.2 Rhan 2*

        *15.2.1 penderfynu beth ddylai'r canlyniad fod.*

16. Ni ddylid cymysgu'r pedwar cam. Mae bob un angen canfyddiadau penodol hefo digon o resymau.

17. Yr Awdurdod Priodol sy'n cyflwyno'r honiadau, a'r Awdurdod Priodol sydd angen eu profi nhw.

18. Mae safon y prawf yn brawf tebygolrwydd, sef a ydy'r materion o dan sylw yn fwy tebygol nag annhebygol o fod yn wir. Mae'r prawf tebygolrwydd yn un safon digyfnewid (Canllawiau'r Swyddfa Gartref paragraff 9.10)

## Canfyddiadau ffeithiol

19. Amlinellir yr honiadau ffeithiol o fewn Rheoliad 30.

*20. Mae'r (cyn) swyddog wedi torri'r safonau ymddygiad proffesiynol sef:*

*20.1. Mae hi wedi defnyddio ei ffôn symudol personol i gyfathrebu hefo unigolion a oedd yn ymwneud hefo troseddoldeb tra roedd ar ac oddi ar ddyletswydd.*

*20.2. Mae hi wedi defnyddio ei ffôn symudol personol i drosglwyddo cudd-wybodaeth sensitif yr heddlu.*

*20.3. Mae hi wedi methu cwblhau ei Hyfforddiant Diogelu Data gorfodol.*

*20.4. Mae hi wedi defnyddio ei manylion mewngofnodi unigol i fynd ar system Niche RMS at ddibenion nad oedd ar gyfer plismona.*

*21. Ar 15 Tachwedd 2017, fe wnaeth y (cyn) swyddog ddweud wrth SW fod aelod o'r cyhoedd yn eisiau am arestiad.*

*22. Ar 10 Mehefin, fe wnaeth y (cyn) swyddog ddweud wrth SW: 'a scouse male in number one bad news!'*

*23. Ar 26 Mehefin 2018, cafodd y (cyn) swyddog sgwrs ar ffurf negeseuon hefo SW am unigolion lle roedd yn siarad amdanyn nhw'n fychanol.*

*24. Ar 17 Awst 2018, dywedodd y (cyn) swyddog wrth SW: 'car stolen by your neighbour!'*

25. *Ar 3 Hydref 2018, mewn sgwrs dros negeseuon hefo SW, fe wnaeth y (cyn) swyddog ddatgelu manylion am weithgarwch yng nghyfeiriad cymydog a chadarnhau pwy oedd yr unigolion oedd wedi cael eu harestio a'r troseddau roeddent wedi'u harestio amdanynt.*

26. *Tra ar ddyletswydd rhwng 14:24 a 14:27 ar 11 Mawrth 2019, fe wnaeth y (cyn) swyddog ddefnyddio ei manylion mewngofnodi defnyddiwr i gael mynediad at system Niche RMS er mwyn chwilio am gyfeiriad (A) ar stryd ei chyfeiriad (YY) ac agor y Brif Ffeil RMS ar gyfer preswylydd y cyfeiriad.*

27. *Ar 6 Medi 2019, tra ar ddyletswydd rhwng 15:09 a 15:12 gwnaeth y (cyn) swyddog ddefnyddio ei manylion mewngofnodi i fynd ar y system Niche RMS er mwyn chwilio am gyfeiriad ei chymydog drws nesaf (B) ac agor digwyddiad troseddol. Fe wnaeth wedyn chwilio am gyfeiriad (A) ar y stryd (YY) ac agor y Brif Ffeil ar gyfer y preswylydd.*

28. *Yn 2020, fe wnaeth y (cyn) swyddog wahanu oddi wrth ei chymar, Mr S. Fe wnaeth hysbysu Adran Fetio Heddlu Gogledd Cymru o'r newid hwn mewn amgylchiadau personol. Ar 13 Mawrth 2020, fe wnaeth eu hysbysu nhw ei bod wedi symud i gyfeiriad (YY).*

29. *Ar 1 Mai 2020, fe wnaeth y (cyn) swyddog ofyn i SW dynnu llun cerbyd oedd wedi parcio tu allan. Fe wnaeth y (cyn) swyddog wedyn ddadlennu nad oedd y dyn yn eisiau ond bod angen 'stop searching for drugs.'*

30. *Tra roedd oddi ar ddyletswydd rhwng 13:26 a 13:29 ar 1 Ionawr 2021, fe wnaeth y (cyn) swyddog ddefnyddio ei manylion mewngofnodi defnyddiwr er mwyn cael mynediad at y system Niche RMS er mwyn chwilio am gyfeiriad (A) ac agorodd Brif Ffeil y preswylydd. Fe wnaeth wedyn agor digwyddiad troseddol.*

31. *Tra roedd ar ddyletswydd ar 17 Ionawr 2021 rhwng 09:24 a 09:30 fe wnaeth y (cyn) swyddog ddefnyddio ei manylion mewngofnodi defnyddiwr i fynd ar system Niche RMS er mwyn cynnal chwiliad manwl am breswylydd blaenorol YY. Fe wnaeth*

*wedyn agor digwyddiad troseddol yn berthnasol iddynt. Fe wnaeth wedyn agor ail ddigwyddiad troseddol yn berthnasol iddynt. Fe wnaeth wedyn agor trydydd digwyddiad troseddol yn berthnasol iddynt.*

*32. Ar 12 Medi 2021, roedd y (cyn) swyddog oddi ar ddyletswydd ac fe ddefnyddiodd ei manylion mewngofnodi defnyddiwr i gael mynediad i'r system Niche RMS a chwilio am gyfeiriad. Fe wnaeth edrych ar drosedd a oedd yn gysylltiedig hefo'r cyfeiriad hwnnw ac yna unigolyn a oedd yn gysylltiedig hefo'r drosedd honno er mwyn dod o hyd i'w rhif ffôn. Fe wnaeth wedyn anfon rhif ffôn symudol yr unigolyn hwnnw at SW.*

*33. Ar 3 Mehefin 2023, cafodd y (cyn) swyddog sgwrs drwy negeseuon hefo GE. Roedd y sgwrs ynghylch gweithredu gwarant. Cadarnhaodd y (cyn) swyddog y byddai'r warant yn cael ei gweithredu'r diwrnod hwnnw a cheisiodd am wybodaeth ynghylch pwy fyddai'n bresennol yn y cyfeiriad.*

*34. Ar 22 Mai 2024, tra roedd ar ddyletswydd rhwng 08:30 a 09:35 gwnaeth y (cyn) swyddog ddefnyddio ei manylion mewngofnodi defnyddiwr er mwyn cael mynediad i system Niche RMS er mwyn gwneud chwiliad manwl ar y cod post oedd yn cynnwys YY. Fe wnaeth wedyn agor y Brif Ffeil ar gyfer YY , y Brif Ffeil ar gyfer preswylydd y cyfeiriad hwnnw ac yna ei Phrif Ffeil ei hun. Fe wnaeth wedyn agor y Brif Ffeil ar gyfer tri preswylydd gwahanol YY. Yn olaf, fe wnaeth agor digwyddiad troseddol a oedd yn berthnasol i'r preswylwyr hynny.*

*35. Defnyddiodd y (cyn) swyddog ei manylion mewngofnodi defnyddiwr er mwyn cael mynediad i'r system Niche RMS er mwyn chwilio systemau'r heddlu er mwyn cael mynediad i Brif Ffeil Mr M bedair gwaith:*

*35.1. 28 Chwefror 2024;*
*35.2. 29 Ebrill 2024;*
*35.3. 30 Awst 2024; a*
*35.4. 29 Medi 2024.*

*36. Roedd y (cyn) swyddog wedi talu Mr M (crefftwr) ddwywaith sef £1,300 ar 2 Chwefror 2024 a £1,600 ar 12 Gorffennaf 2024.*

*37. Ar 22 Mai 2024, gwnaeth y (cyn) swyddog ddefnyddio ei manylion mewngofnodi defnyddiwr er mwyn cael mynediad at y system Niche RMS er mwyn ymchwilio i'w chyn gymar Mr S.*

*38. Ar 25 Awst 2024, tra roedd ar ddiwrnod gorffwys, fe wnaeth y (cyn) swyddog ddefnyddio ei manylion mewngofnodi defnyddiwr er mwyn cael mynediad at y system Niche RMS ac er mwyn cael mynediad i ddigwyddiad Icad Q128304 un waith ar bymtheg. Roedd yr Icad yn ymwneud hefo preswylydd ar y stryd lle roedd hi'n byw sef YY.*

*39. Defnyddiodd y (cyn) swyddog ei ffôn symudol personol i gyfathrebu hefo aelodau o'r cyhoedd am faterion plismona:*

*39.1. Rhwng 2019 a 2021, gwnaeth y (cyn) swyddog gyfathrebu hefo ZD ar WhatsApp. Yn ystod y sgyrsiau hyn byddai'r swyddog yn gofyn i ZD am wybodaeth. Er mwyn i'r wybodaeth hon gael ei rhoi, byddai'r swyddog yn datgelu manylion cerbydau, pobl neu ddigwyddiadau a oedd o ddiddordeb i'r heddlu.*

*39.2. Fe wnaeth y (cyn) swyddog gyfathrebu hefo JD ar WhatsApp. Yn ystod y sgyrsiau hyn, byddent yn trafod os oedd pobl dal 'yn eisiau' ac a oedd pobl wedi bod ynghlwm mewn troseddoldeb e.e. byrgleriaeth neu ddwyn.*

*39.3. Fe wnaeth y (cyn) swyddog gyfathrebu hefo GE ar WhatsApp. Yn ystod y sgyrsiau hyn, byddai'n rhoi gwybodaeth iddo ynghylch a oedd gwarant wedi'i gweithredu a beth fyddai effaith hynny.*

40. Mae'r ystyriaethau canlynol yn berthnasol:

40.1. Nid oes tystiolaeth CCC na sain yn yr achos hwn.

40.2. Darperir y dystiolaeth gan archwiliad technegol a dadansoddiad o systemau gwybodaeth ac o ddata symudol. Mae'n glir ac yn ddibynadwy.

40.3. Mae'r toriadau'n lluosog, ar draws sawl pwnc a pharhaodd yr ymddygiad.

40.4. Cyfaddefir yr ymddygiad fel a ganlyn. Er nad ydy'r cyn swyddog yn derbyn ei fod yn cyfateb i gamymddwyn difrifol, mae'n derbyn ei fod yn cyfateb i gamymddwyn:

40.4.1. Derbynnir Paragraff 20.1 gan y swyddog. Ni wnaeth sylweddoli fod defnyddio ei ffôn personol at ddibenion gwaith wedi'i wahardd. Ni wnaeth y swyddog ymgysylltu hefo troseddwyr yn bersonol ar unrhyw adeg.

40.4.2. Derbynnir Paragraff 20.2 gan y swyddog. Fodd bynnag, ni wnaeth ddefnyddio ei ffôn personol yn fwriadol er mwyn trosglwyddo cudd-wybodaeth sensitif.

40.4.3. Derbynnir Paragraff 20.3 gan y swyddog. Nid oedd yn ymwybodol ei bod wedi methu cwblhau ei hyfforddiant diogelu data. Fe wnaeth dderbyn sawl cais NCALT yr oedd yn ei chael hi'n anodd cadw ar ei ben.

40.4.4. Derbynnir Paragraff 20.4 gan y swyddog.

40.4.5. Derbynnir Paragraff 21. Bwriad y cyn PC Davies oedd mynd ac arestio'r unigolyn yn eisiau. Gofynnodd y cyn swyddog iddynt beidio dweud wrth neb, fel nad oedd yr unigolyn yn eisiau yn cael rhybudd fod yr heddlu'n dod. Nid oedd yn meddwl ei bod yn gwneud dim o'i le ar y pryd gan fod yr heddlu'n gofyn am gymorth y cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch pobl yn eisiau.

40.4.6. Derbynnir Paragraff 22.

40.4.7. Derbynnir Paragraff 23. Mae'r cyn swyddog yn defnyddio nad ydy hi'n defnyddio'r gair yn ei sgyrsiau o ddydd i ddydd ac na fyddai byth yn ei ddefnyddio mewn unrhyw sgyrsiau plismona.

40.4.8. Derbynnir Paragraff 24 gan y cyn swyddog. Mae'n derbyn na ddylai fod wedi geirio'r neges fel y gwnaeth.

40.4.9. Derbynnir Paragraff 25. Mae'n cydnabod na ddylai fod wedi cadarnhau'r arestiad. Ni wnaeth nodi pam y cafodd yr unigolyn eu harestio.

40.4.10. Derbynnir Paragraffau 26 a 27. Edrychodd y swyddog ar y lleoliadau gan ei fod yn bwriadu symud i'r ardal ac roedd wedi bod yn byw mewn ofn ar ôl gweld byrgleriaeth yn nhŷ ei chymydog.

40.4.11. Derbynnir Paragraff 28.

40.4.12. Derbynnir Paragraff 29.

40.4.13. Derbynnir Paragraff 30, er nid oedd y cyn swyddog yn gallu dweud pam ei bod wedi gwneud.

40.4.14. Derbynnir Paragraff 31, ac fe wnaeth wneud y gwiriadau gan ei bod yn bryderus ynghylch pam roedd unigolion yn mynd i'r eiddo o hyd yn chwilio am breswylwyr blaenorol.

40.4.15. Derbynnir Paragraff 32. Ymchwiliodd i'r rhif a'i rannu gan fod gŵr ei ffrind wedi marw ac roedd y derbynnydd yn bwriadu ymweld fel pryder am les ac roedd ei ffrind wedi colli'r rhif ffôn.

40.4.16. Derbynnir Paragraff 33. Fe wnaeth y swyddog eu hysbysu nhw am y warant, gan eu bod wedi bod ofn ac roedd y cyn swyddog wedi cynnig cynorthwyo. Roedd yn teimlo nad oedd dweud wrthyn nhw'n peryglu'r warant gan ein bod yn gweithio tuag at yr un canlyniad.

40.4.17. Derbynnir Paragraff 34. Gwnaeth hyn er mwyn cynorthwyo swyddogion a oedd wedi bod i'r cyfeiriad o'r blaen.

40.4.18. Derbynnir Paragraff 35. Roedd yn grefftwr yr oedd wedi'i dalu ond cafodd wybod ei fod wedi'i arestio am yrru ar gyffuriau. Ei bwriad oedd rhoi marciwr ar ei gerbyd unwaith roedd wedi'i

wahardd. Bob tro roedd yn edrych, nid oedd yr achos wedi dod i ben yn y llys. Fe wnaeth anghofio amdano wedyn gan ei bod yn brysur mewn rôl newydd.

40.4.19. Derbynnir Paragraff 36.

40.4.20. Derbynnir Paragraff 37. Cafodd afael ar y cyfeiriad a sylwi bod cysylltiad.

40.4.21. Derbynnir Paragraff 38. Gwelodd swyddogion tu allan i'r cyfeiriad gan ei bod eisiau cynorthwyo hefo unigolyn oedd ar goll.

40.4.22. Derbynnir Paragraff 39.

40.4.23. Derbynnir Paragraff 39.1 a 39.2. Roedd yn ceisio dod o hyd i unigolyn yn eisiau ond wrth edrych yn ôl, mae'n derbyn ei bod hi'n anghywir.

40.5. Mae'r cyn swyddog yn derbyn fod y derminoleg a ddefnyddiwyd i ddisgrifio aelodau o'r cyhoedd yn amhriodol.

40.6. Methodd y cyn swyddog gwblhau'r hyfforddiant diogelu data gorfodol gan gynnwys un lle roedd Heddlu Gogledd Cymru yn atgoffa holl staff i'w gwblhau yn 2023, drwy neges gan y Prif Gwnstabl a thrwy e-bost a anfonwyd yn uniongyrchol at holl staff gan y Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch (SIRO). Ni wnaeth y cyn swyddog gwblhau Hyfforddiant Diogelu Data NCALT yn 2020 ac felly mae hi wedi cwblhau peth hyfforddiant o ran defnyddio a gwarchod data o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

40.7. Mae'r Sgrin X Mewngofnodi ar gyfer ICAD yn glir ac yn dweud *"Use of this site involves the electronic transmission of public safety information. Unauthorized use of this product and its information can lead to criminal prosecution."*

40.8. Mae Arfer Proffesiynol Cymeradwy'r Coleg Plismona ar rannu gwybodaeth yr heddlu yn dweud *'sharing police information must be linked to a policing purpose.'* Mae *'diben'* o'r fath yn cael ei ddiffinio o fewn yr Arfer.

40.9. Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn i swyddogion sicrhau fod unrhyw gyswllt hefo aelodau'r cyhoedd yn berthnasol i blismona yn cael ei gynnal ar ffôn symudol wedi'i roi gan yr heddlu. Gwaherddir defnyddio ffonau symudol personol ar gyfer cyswllt o'r fath.

**41. Daw'r panel i'r casgliad ei bod yn fwy tebygol o gyfaddefiadau'r cyn swyddog a'r dystiolaeth ysgrifenedig nas heriwyd fod y cyn swyddog Gillian Davies wedi ymddwyn fel yr honnir. I gloi, daw'r panel i'r casgliad, yn ôl pwysau tebygolrwydd, y gellir profi'r honiadau.**

## <u>Torri'r Safonau</u>

42. Atgoffodd y panel eu hunain o'u diben o fewn y drefn gamymddwyn, sef:

*42.1. Cynnal hyder y cyhoedd ac enw da'r gwasanaeth heddlu;*

*42.2. Cynnal safonau uchel mewn plismona ac atal camymddwyn; a*

42.3. *Gwarchod y cyhoedd.*

43. Arsylwodd y panel fod baich y prawf yn gyfrifoldeb drwyddo draw i'r Awdurdod Priodol a bod safon y prawf yn y gwrandawiadau hyn y safon brawf sifil. Yn yr achos hwn, mae'r panel wedi cael gwahoddiad i ystyried a wnaeth y materion honedig dorri'r safonau ymddygiad proffesiynol neu beidio o ran *Cyfrinachedd; Gorchmynion a Chyfarwyddiadau;* ac *Ymddygiad Annheilwng*.

Cyfrinachedd

44. **Yn ôl pwysau tebygolrwydd, daw'r panel i'r casgliad fod y cyn swyddog wedi torri'r safon hon.**

45. Drwy weithredu fel hyn, daeth y panel i'r casgliad nad ydy'r cyn swyddog wedi trin gwybodaeth hefo parch ac mae wedi cael mynediad ac wedi dadlennu'r wybodaeth tra na doedd yn cyflawni dyletswyddau'r heddlu'n iawn.

46. Daeth y panel i'r casgliad fod y cyn swyddog wedi defnyddio systemau'r heddlu er mwyn cael mynediad i wybodaeth lle nad oedd diben plismona mewn gwneud. Rhannodd wybodaeth plismona hefo aelodau o'r cyhoedd pan nad oedd diben plismona mewn gwneud. Defnyddiodd systemau'r heddlu i gael gwybodaeth a oedd yn berthnasol iddi hi pan nad oedd diben plismona mewn gwneud.

Gorchmynion a Chyfarwyddiadau

47. **Yn ôl pwysau tebygolrwydd, daw'r panel i'r casgliad fod y cyn swydd wedi torri'r safon hon.**

48. Drwy weithredu fel mae'r panel wedi'i ganfod fod y cyn swyddog, wrth ddefnyddio ei ffôn symudol personol er mwyn cyfathrebu hefo aelodau o'r cyhoedd am faterion plismona, wedi gwyro oddi wrth bolisi'r heddlu.

Ymddygiad Annheilwng

49. **Yn ôl pwysau tebygolrwydd, daw'r panel i'r casgliad fod y cyn swyddog wedi torri'r safon hon.**

50. Drwy weithredu yn y ffordd mae'r panel wedi'i ganfod, gallai'r ymddygiad hwn ddwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu neu danseilio hyder y cyhoedd mewn plismona.

51. Mae'r cyn swyddog wedi ymddwyn fel y gallai niweidio ei henw ei hun a niweidio'r ymddiriedaeth a'r niwed a roddir yn Heddlu Gogledd Cymru a phlismona'n fwy cyffredinol, er mwyn diogelu gwybodaeth sensitif.

## Lefel y Camymddwyn

52. Honnir gan yr Awdurdod Priodol fod y toriad yn cyfateb i gamymddwyn difrifol.

53. Mae *Camymddwyn Difrifol* yn golygu torri'r safonau ymddygiad proffesiynol sydd mor ddifrifol i gyfiawnhau diswyddo. Mae *camymddwyn* yn golygu torri'r safonau proffesiynol sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau disgyblu.

54. Wedi ystyried yr uchod a'r holl faterion a dderbyniwyd ac a ystyriwyd, daw'r panel i'r casgliad, yn unigol a/neu hefo'i gilydd, mae hwn yn fater **sydd ddim yn syrthio o fewn y diffiniad o Gamymddwyn Difrifol**.

55. Mae hon oherwydd fod yr ymddygiad a brofwyd yn fwriadol, yn barhaus ac oherwydd effaith (ac effaith bosibl) ar hyder y cyhoedd ac enw da plismona. Yn bwysig hefyd, y risg o niwed i'r rhai hynny a effeithiwyd yn uniongyrchol gan ymddygiad y cyn swyddog. Hefyd yn bwysig, y risg o niwed i'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan ymddygiad y cyn swyddog. Mae eglurhad llawn o'r difrifoldeb yn dilyn isod.

56. Mae’r casgliad hwn yn cyflawni diben y drefn gamymddwyn y gwnaeth y Panel atgoffa eu hunain ohoni wrth wneud y penderfyniad hwn.

## Canlyniad

57. Ystyriodd y Panel yr holl ddadleuon, y dystiolaeth a'r cofnod gwasanaeth, a chanllawiau'r Coleg Plismona ar ganlyniadau.

58. Eto, ystyriodd y Panel y diben o fewn y drefn gamymddwyn sef:

*58.1. cynnal hyder y cyhoedd ac enw da'r gwasanaeth heddlu*

*58.2. cynnal safonau uchel mewn plismona ac atal camymddwyn*

*58.3. gwarchod y cyhoedd.*

## Asesiad Difrifoldeb

59. Wrth asesu difrifoldeb y camymddwyn, mae'r Panel wedi ystyried:

60. Beiusrwydd y cyn swyddog

60.1. Yn y mater hwn, mae'r honiadau mae'r panel wedi'u profi ynghylch ymddygiad uniongyrchol y cyn swyddog.

60.2. Roedd gan y cyn swyddog gyfrifoldeb gweithredu yn unol hefo'r safonau, polisïau a chanllawiau perthnasol. Mae hyn yn berthnasol ar neu oddi ar ddyletswydd.

60.3. Mae niwed yn ymddangos yn anfwriadol, yn seiliedig ar y dystiolaeth mae'r panel wedi'i dderbyn ac heb fantais cael y cyn swyddog yn rhoi tystiolaeth, er y byddai'n rhesymol wedi rhagweld y risg o niwed o'i hymddygiad hi.

60.4. Mae'r Panel yn nodi fod yr achos hwn yn canolbwyntio ar gamddefnyddio systemau cyfrifiadurol yr heddlu a gwybodaeth heddlu sensitif, sydd o bwys penodol i'r gwasanaeth heddlu'n gyffredinol. Mae disgwyliad cyhoeddus a gofyniad cyfreithiol y dylai gwybodaeth a gedwir ar gyfer

diben plismona gael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, wedi'i gwarchod yn iawn a'i defnyddio dim ond at ddiben plismona cyfreithlon. Mae polisi Heddlu Gogledd Cymru'n amlinellu'n glir y disgwyliadau ar gyfer holl staff ynghylch Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth.

60.5. Nododd y Panel na chyflwynwyd dim tystiolaeth i fynegi fod yr ymddygiad gan y cyn swyddog at ddiben drygionus – fel elw ariannol neu wedi bwriadu cynorthwyo gweithgarwch troseddol. Nododd y Panel hefyd, na ddylai neb o dan unrhyw amgylchiadau gael mynediad neu ddefnyddio gwybodaeth yr heddlu am resymau personol, fel chwilfrydedd cyffredinol neu ddyhead i wirio ar weithgarwch troseddol ger cartref swyddog. Dylid bod diben plismona penodol ac iawn dros wneud. Roedd y Panel yn glir nad oedd dim diben plismona cyfreithlon yn yr achos hwn, a bod y mynediad yn fynych ac yn fwriadol.

60.6. Mae'r Panel yn nodi fod ffactorau yn yr achos hwn yn fwy difrifol, gan gynnwys dadlennu gwybodaeth sensitif yn gynyddol a thorri preifatrwydd personol. Mae'r risg o berygl posibl i ymchwiliadau'r heddlu o ran gwybodaeth a ddatgelir am unigolion sy'n cael eu ceisio gan yr heddlu neu weithgarwch ymgyrch arfaethedig, yn arbennig o berthnasol i'r achos hwn. Mae tystiolaeth ddiamau fod gwybodaeth sensitif wedi'i rhannu sawl tro hefo aelodau o'r cyhoedd, a allai fod wedi peryglu ymchwiliadau'r heddlu.

60.7. Mae beiusrwydd felly'n syrthio ar lefel difrifoldeb **canolig-uchel**.

61. <u>Y niwed a achoswyd (a'r risg o niwed)</u>

61.1. Nid oes angen i unigolyn neu grŵp pendant ddioddef niwed er mwyn tanseilio hyder y cyhoedd, a does dim rhaid i'r cyhoedd wybod yr amgylchiadau, fel yr oedd y Panel yn cydnabod oedd yn bresennol yn yr achos hwn. Mae sut fyddai ymddygiad o'r fath yn cael ei weld gan y

cyhoedd yn berthnasol, waeth a oedd yr ymddygiad yn hysbys ar y pryd ai peidio.

61.2. Mae'r Panel yn cydnabod fod cynnal uniondeb gwybodaeth yr heddlu yn hanfodol er mwyn cyflwyni swyddogaethau gwasanaeth heddlu effeithiol. Mae'r effaith andwyol ar hyder y cyhoedd o gael mynediad a rhannu gwybodaeth yn ddifrifol. Hefo'r achos hwn, yn benodol, roedd rhannu gwybodaeth sensitif hefo'r risg o achosi niwed sylweddol.

61.3. Mae'r Panel yn nodi fod y Cod Moeseg yn cyfeirio at weithwyr proffesiynol plismona'n parchu cyfrinachedd mewn rheoli gwybodaeth a sicrhau nad yw'n cael ei dderbyn gan unigolion heb awdurdod, un ai ar neu oddi ar ddyletswydd. Gwneir cyfeiriad penodol am yr angen i weithwyr proffesiynol plismona warchod gwybodaeth yr heddlu a pheidio 'cario clecs…i unrhyw un – gan gynnwys ffrindiau a theulu – a allai gyfrannu at gamddefnyddio gwybodaeth yr heddlu'.

61.4. Mae risg sylweddol o niwed i enw da gan y byddai'r cyhoedd yn gweld yr ymddygiad hwn fel amhroffesiynol a byddai'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth heddlu.

61.5. Mae craffu cenedlaethol ar ymddygiad yr heddlu ar hyn o bryd yn anochel yn golygu fod achosion fel rhain yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona'n sylweddol. Mae'n iawn i'r cyhoedd ddisgwyl y bydd unrhyw doriadau i safonau uchel ymddygiad moesegol yn cael eu hymdrin yn bendant ac yn gyfatebol.

61.6. Mae'r niwed a'r risg o niwed yn y mater hwn felly'n syrthio ar lefel difrifoldeb **canolig-uchel**.

62. <u>Ffactorau gwaethygol</u>

62.1. Roedd yr ymddygiad yn fwriadol.

62.2. Mae sawl toriad i’r safonau wedi’u profi.

62.3. Mae’r ymddygiad yn fynych ac yn barhaus dros gyfnod.

62.4. Parhaodd yr ymddygiad ar ôl i’r cyn swyddog fod wedi sylweddoli ei fod yn amhriodol.

62.5. Gwyro sylweddol o gyfarwyddiadau, boed yn orchymyn, polisi’r heddlu neu ganllawiau cenedlaethol.

62.6. Graddfa neu ddwyster pryder lleol neu genedlaethol am y mater hwn sef diogelwch gwybodaeth.

63. <u>Ffactorau lliniarol</u>

63.1. Gwnaeth y cyn swyddog gyfaddefiadau cynnar.

63.2. Dangosodd y cyn swyddog edifeirwch gwirioneddol a derbyn cyfrifoldeb am yr hyn a wnaeth.

63.3. Mae’r ymddygiad i’w weld yn gyfeiliornus ac yn canolbwyntio ar ddefnydd amhriodol o systemau gwybodaeth yr heddlu. Nid oes tystiolaeth o fwriad niweidiol.

63.4. Nododd y Panel yr hyfforddiant diogelu data cyfyngedig a wnaeth y cyn swyddog a chyfrifoldeb Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth o ran hyn.

64. I gloi, mae’r panel yn canfod fod beiusrwydd ar lefel canolig-uchel a bod y niwed (a risg o niwed) ar lefel canolig-uchel. Ynghyd â ffactorau gwaethygol a lliniarol, **mae’r difrifoldeb yn gyffredinol ar lefel canolig-uchel.**

65. Dywed yr Awdurdod Priodol mai ond casgliad fod y cyn swyddog i’w diswyddo, pe bai hi dal yn gwasanaethu, fyddai’n cyflawni dibenion y broses ddisgyblu.

66. Mae’r cyn swyddog yn cyfaddef yr ymddygiad ond mae wedi dadlau’n ysgrifenedig drwy’r amser nad yw’n cyfateb i Gamymddwyn Difrifol.

67. Wedi ystyried yr holl faterion uchod a'r canlyniadau sydd ar gael, gwnaeth y Panel yn gyntaf ystyried a oedd y cam gweithredu llai llym yn ddigonol. Mewn gwirionedd, dim ond cofnodi'r canfyddiad oedd rhaid.

68. Atgoffodd y Panel eu hunain o ddiben y drefn gamymddwyn. Maent yn cydnabod mai nid diben gwrandawiadau ydy cosbi'r cyn swyddog.

69. Atgoffir y Panel fod yr heddlu mewn swydd gyfrifol freintiedig, ac mae'r cyhoedd yn disgwyl iddynt gyflawni eu swydd yn briodol a phroffesiynol.

70. Mae'r ystyriaethau canlynol yn berthnasol:

70.1. Mae'r achos hwn yn hanfodol yn ennyn niwed sylweddol – yn bennaf yr effaith andwyol ar hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae'r cyhoedd yn disgwyl y gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru drin eu gwybodaeth yn ddiogel a phroffesiynol. Mae staff yn cael eu rheoli nid yn unig gan ddeddfwriaeth a pholisi yn yr achos hwn, ond hefyd safonau ymddygiad proffesiynol a'r Cod Moeseg.

70.2. Canfu'r Panel fod y cyn swyddog wedi peri risg nid yn unig i ddiogelwch y wybodaeth a geir mynediad ati at ddiben amherthnasol i blismona, ond i enw da Heddlu Gogledd Cymru a'r gwasanaeth heddlu ehangach. Mae hyn yr un mor berthnasol boed bod yr ymddygiad yn hysbys i'r cyhoedd neu beidio.

70.3. Y risg sylweddol o niwed i enw da, i Heddlu Gogledd Cymru a phlismona'n ehangach, gan y byddai'r heddlu'n gweld yr ymddygiad (profedig) hwn fel amhroffesiynol a byddai'n tanseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, yn enwedig hefo craffu cenedlaethol ar hyn o bryd ar ymddygiad o fewn plismona. Mae risg sylweddol yn bodoli o danseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, os nad ymdrinnir hefo'r materion hyn yn gadarn a phriodol.

71. Nid oes honiadau perthnasol blaenorol o gamymddwyn wedi dod i sylw'r panel, a dim o bwys sy'n awgrymu fod y cyn swyddog yn ddim byd arall nag o natur dda Darparwyd ugain o eirdaon i'r panel a oedd hefo tystiolaeth o hynny.

72. Nododd y panel gofnod gwasanaeth a gwasanaeth cyhoeddus sylweddol y cyn swyddog, deunaw mlynedd i gyd, ynghyd â'r ddwy gymeradwyaeth ar ei Chofnod Gwasanaeth. Maent i gyd yn gaffaeliad iddi.

73. O ran lliniariad personol, rydym wedi ystyried y penderfyniad yn *R (ar gais Williams) v Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu ac un arall* [2016] Uchel Lys Cymru a Lloegr 2708 ynghylch y pwysau i'w roi ar liniariad personol yng ngwrandawiadau camymddwyn yr heddlu.

74. Gan ystyried yr holl faterion a amlinellir, nid ydy'r Panel yn ystyried fod y canlyniad llai difrifol yn ddigonol wrth ystyried natur yr honiad profedig, diben y drefn ddisgyblu a gwarchod y cyhoedd.

75. Casgliad y Panel ydy bod yr ymddygiad profedig mor ddifrifol ac yn cyrraedd y trothwy perthnasol, mai ond y gosb fwyaf ddifrifol sy'n briodol.

76. O ganlyniad, casgliad y Panel ydy, pe bai'r cyn swyddog dal i wasanaethu, dim ond **diswyddo heb rybudd** fyddai'n cyflawni diben y drefn gamymddwyn.

77. Mae'r Panel yn cyfarwyddo y dylai manylion y cyn swyddog gael eu cynnwys o fewn Rhestr Pobl Waharddedig yr Heddlu (Rheoliad 3(2) Rhestr Pobl Waharddedig yr Heddlu a Rheoliadau Rhestr Ymgynghorol yr Heddlu 2017).

78. Mae gan y cyn swyddog hawl apelio yn unol hefo Rheolau Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu 2020. Os ydy'r cyn swyddog yn dymuno apelio, dylai roi rhybudd o'i bwriad i apelio i'r Awdurdod Priodol o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y penderfyniad ysgrifenedig hwn.

---

**4 Awst 2026**

**Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Chris Allsop**
Llywydd
**Mr Andrew Parry**
Aelod o'r Panel
**Mr Darren Campbell**
Aelod o'r Panel
**Mr Andrew Findlay**
Ymgynghorydd Cymwys yn y Gyfraith